**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref cla19
Ein cyf/Our ref LA/06016/11

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

28 Hydref 2011

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi ynghylch Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) (Diwygio) 2011.

Y llynedd, adolygodd swyddogion y trefniadau ar gyfer safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer gweithlu ysgolion Cymru. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen newid trefniadau cyfredol Cymru yn sylweddol. O ran arwain ysgolion, cytunwyd bod angen datblygu dull gweithredu newydd ar gyfer y rhaglen Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yng Nghymru i sicrhau ei bod yn fwy trwyadl, heriol a chadarn. Roedd hyn yn gyson â chanlyniadau'r Adroddiad Estyn yr ydych wedi cyfeirio ato.

Yn ystod y cyfnod peilot caiff y CPCP ei ddyfarnu ar sail asesiad trylwyr o ymarfer yn erbyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth. Dylai'r dull hwn helpu i sicrhau bod yr ymgeiswyr hynny sy'n ennill y cymhwyster yn gallu dangos bod ganddynt y sgiliau, y safonau a'r priodoleddau sydd eu hangen, a'u bod yn barod i fod yn benaethiaid.

Mae 33 o ymgeiswyr ledled Cymru yn rhan o'r cynllun peilot sy'n symud ymlaen yn dda o ran yr amserlen a'r adborth. Cynhelir Canolfannau Asesu ym mhob un o'r pedwar Consortiwm rhanbarthol rhwng 10 a 14 Hydref. Yn dilyn proses gymedroli genedlaethol, caiff y CPCP ei ddyfarnu i'r ymgeiswyr llwyddiannus ym mis Ionawr 2012. (Yn unol â'r amserlen, graddiodd y garfan olaf o benaethiaid drwy'r model blaenorol yn ystod yr haf eleni.)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r rhaglen ar gyfer cyflwyno'r dull newydd yn llawn yn sicrhau darpariaeth ddi-dor a chyn bo hir gwahoddir ceisiadau am y flwyddyn academaidd hon. Bydd y broses ymgeisio yn digwydd cyn diwedd y peilot a bydd yr ymgeiswyr hynny a ddewisir ar gyfer y cynllun, ac sydd wedyn yn llwyddo yn eu hasesiadau, yn ennill y CPCP cyn diwedd tymor yr haf 2012 – sy'n cyfateb o ran yr amserlen i'r hyn fyddai wedi digwydd o dan y trefniadau blaenorol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd yr un ymgeisydd o dan anfantais a bod y broses o gymhwyso penaethiaid yn parhau yn ddi-dor.

Rydym yn gwerthuso elfennau unigol y peilot wrth inni fynd ymlaen er mwyn llywio'r trefniadau ar gyfer elfennau cyfatebol y broses gyflwyno.

Byddaf, wrth gwrs, yn diweddaru'r Pwyllgor am y cynllun peilot a'r cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r dull newydd yn llawn wrth i'r rheiny gael eu cadarnhau yn sgil gwerthuso'r peilot yn gyffredinol.

Yn gywir

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills